*Datganiad i'r Cyfryngau*
*14 Ebrill 2026*
*I'w ryddhau ar unwaith*

# 'Dyma Ffilmiau Cymru'
# Cymru'n Dathlu 130 Mlynedd o Sinema

Mae sinemâu Cymru'n dathlu pen-blwydd arwyddocaol yn ystod y gwanwyn, gan nodi 130 mlynedd ers y dangosiadau ffilm cyntaf a wyddom amdanynt yng Nghaerdydd, fis Ebrill 1896.

Mae sgriniau mawr Cymru wedi bod yn gartref i ffilmiau arloesol Cymreig William Haggar ac Arthur Cheetham yn y 1900au cynnar ac ar hyd y blynyddoedd, hyd at ffilmiau newydd 2026, megis *Effi o Blaenau* a *Madfabulous*.

I nodi'r achlysur, mae, Canolfan Ffilm Cymru yn cynnal gweithgareddau drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys rhannu canlyniadau holiadur y diwydiant cyfan sy'n cyflwyno dyheadau'r diwydiannau sgrin yng Nghymru ar gyfer dyfodol ffilm yng Nghymru, a phodlediad Gwnaethpwyd yng Nghymru ar thema debyg. Bydd hefyd cyfres o flogiau 'trysorau sinema' sy'n cynnig cipolwg i gynulleidfaoedd ar ganolfannau ffilm hanesyddol a chanolfannau newydd eu hadfer, yn ogystal â rhestr o rai o'r ffilmiau mwyaf allweddol o Gymru dros y 13 degawd diwethaf, a fydd ar gael i'w dangos mewn sinemâu ar gyfer tymor 'Dyma Ffilmiau Cymru'.

***Mae Hana Lewis, Pennaeth Canolfan Ffilm Cymru, yn esbonio arwyddocâd y pen-blwydd hwn:***

*"Mae sinema wedi esblygu dros y 130 mlynedd diwethaf, gan adlewyrchu newidiadau mewn cymdeithas, ffyrdd o adrodd straeon a chofleidio technolegau digidol. Mae'n parhau'n hafan barhaus o ddihangfa, adloniant a chysylltiad. Mae nifer o 'drysorau sinema' i gynulleidfaoedd eu darganfod yng Nghymru, o'r Savoy yn Nhrefynwy i Neuadd Brynaman a mwy. Rydyn ni am wneud 2026 yn flwyddyn y sinema, er mwyn diolch i sinemâu am eu cyfraniad gwerthfawr i'n cymunedau, tra hefyd yn cydnabod rôl ffilmiau Cymreig a'n gobeithion ar gyfer straeon ar sgrin yng Nghymru. Yn ein holiadur diweddar i'r diwydiant, fe ddwedodd 97% o wneuthurwyr ffilmiau Cymru wrthym mor bwysig oedd dangos eu ffilmiau ar sgrin fawr, felly ni ddylid tanbrisio pwysigrwydd sinema i gynhyrchu ac i gynulleidfaoedd."*

Felly, ym mhle dechreuodd bopeth? Fe ddangosodd yr Americanwr Birt Acres ffilmiau'n breifat i Gymdeithas Ffotograffiaeth Caerdydd cyn mynd yn ei flaen i arddangos ei ffilmiau i gynulleidfaoedd ym Mharc Cathays, gan ragflaenu'r Brodyr Lumiere enwog, a ddaeth a'u 'Cinematographe' enwog i Neuadd Gerdd Ymerodraeth Caerdydd ym mis Mai 1896. Ym mis Mehefin y flwyddyn honno, fe aeth Acres ati i greu ei ffilm gyntaf yng Nghymru - Ymweliad Brenhinol Tywysog Cymru (yn ddiweddarach Edward VII) i Gaerdydd.

Mae 'Dyma Ffilmiau Cymru' gan Ganolfan Ffilm Cymru yn becyn o ffilmiau Cymreig sy'n rhychwantu 130 o flynyddoedd ac yn cynnwys 70 o ffilmiau, gyda'r cynharaf yn ymestyn yn ôl i 1898. Mae'r pecyn yn cynnwys un o'r ffilmiau sinematig mwyaf rhyfeddol o'r cyfnod, o'r enw "*Conway Castle – Panoramic View of Conway on the L & N.W Railway",* drwy

garedigrwydd Archif Sgrin a Sain Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Yn adnabyddus fel enghraifft o is-genre o ffilmiau o'r enw 'phantom train ride', fe ffilmiwyd y locomotif o dryc wrth iddo deithio drwy dwnnel ac allan i olygfa ysblennydd o'r Castell. Ymhlith y ffilmiau eraill mae'r ffilm gyntaf gyda sain yn y Gymraeg - '*Y Chwarelwr',* a ffefrynnau megis *The Proud Valley, Rhosyn a Rhith (Coming up Roses), Submarine, Gwledd* a llawer mwy.

Fe ddatgelodd holiadur y diwydiant Canolfan Ffilm Cymru hefyd bod 87% o'r rheiny a atebodd yn teimlo nad oedd digon o ffilmiau Cymraeg eu hiaith yn cael eu creu a bod diffyg ffilmiau sy'n ymwneud â bywyd yng Nghymru. Felly mae'n bwysicach nag erioed edrych yn ôl ar rai o'r ffilmiau mwyaf dylanwadol a grëwyd yng Nghymru ar draws y blynyddoedd, gan hefyd ddiogelu diwylliant sgrin Cymru.

**Ychwanega *Annie Grundy o'r Magic Lantern, un o hoff sinemâu Cymru a fu ar restr* Time Out o 100 sinemâu gorau'r byd yn ddiweddar, yn ogystal ag ennill gwobr Sinema'r Flwyddyn 2025 BIFA:**

"Pen-blwydd Hapus yn 130 i'r sinema yng Nghymru - ac am flwyddyn gyffrous! Rydyn ni hefyd yn dathlu 125 mlynedd o ddangos ffilmiau yn y Magic Lantern - a elwir yn 'Assembly Rooms' yn wreiddiol - yn Nhywyn, Gwynedd. Fe lansiwyd ein rhaglen 125 ffilm ar 8 Mawrth, gyda sgwrs am hanes y ganolfan gan Chris Richards o'n tîm. Fel nifer o sinemâu gwych yng Nghymru, rydyn ni'n edrych ymlaen yn fawr at dymor 'Dyma Ffilmiau Cymru' a rhannu rhai o ffilmiau gorau'r archif gyda'n cynulleidfa. Mae mor bwysig i'n cymunedau weld eu diwylliant a'u treftadaeth ar y sgrin fawr."

Gall cynulleidfaoedd nawr wylio hysbyslun tymor 'Dyma Ffilmiau Cymru', yn ogystal â fideos 'trysorau sinema' a darllen blogiau gan arddangoswyr ffilmiau a'u gobeithion ar gyfer dyfodol ffilm yng Nghymru. Gall cynulleidfaoedd hefyd fwynhau cyflwyniad cyflym ar Hanes Sinema Cymru drwy'r adnodd byr yma a grëwyd ar gyfer y tymor, darllen canlyniadau'r holiadur Dyfodol Ffilm Cymru (y diwydiant), a dilyn Canolfan Ffilm Cymru i gael newyddion ynglŷn â dangosiadau sydd ar ddod.

**- DIWEDD -**

**Mae'r rhestr lawn o asedau'r tymor yn cynnwys:**

1. Rhestr 'Dyma Ffilmiau Cymru'
2. Hysbyslun y tymor
3. Deg Ffilm Wych o Gymru Efallai Nad Ydych Wedi'u Gwylio Eto
4. Hanes Sinema Cymry – Adnodd Byr
5. Blogiau trysorau sinema
6. Blogiau & Phodlediad Dyfodol Ffilm yng Nghymru
7. Canlyniadau'r holiadur Dyfodol Ffilm Cymru

**Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:**
Jade Atkinson, Cydlynydd Marchnata Aelodau - 02920 311 057 / Jade@filmhubwales.org
Lisa Nesbitt, Swyddog Cynorthwyo Aelodau - 02920 311 067 / lisa@filmhubwales.org
Hana Lewis, Pennaeth Canolfan Ffilm Cymru - 02920 353 740 / hana@filmhubwales.org

**Nodiadau i Olygyddion:**

**Ynglŷn â Chanolfan Ffilm Cymru**
Mae Canolfan Ffilm Cymru (CFfC) yn dathlu sinema. Rydym yn ariannu, hyfforddi ac yn cynghori sefydliadau sy'n dangos ffilmiau annibynnol o'r DU a ffilmiau rhyngwladol, o wyliau ffilm i gymdeithasau a chanolfannau celfyddydau cymysg. Wrth gyd-weithio gyda dros 270 o arddangoswyr ein bwriad ydy cynnig y ffilmiau Prydeinig a rhyngwladol gorau i bob cynulleidfa ar draws Cymru a'r DU. Ers sefydlu Canolfan Ffilm Cymru yn 2013 rydym wedi cefnogi dros 380 o brosiectau sinema a chyrraedd dros 717,500 o aelodau cynulleidfa.

Rydym yn rhan o rwydwaith ledled y DU o wyth canolfan a ariennir gan y Loteri Genedlaethol trwy'r Sefydliad Ffilmiau Prydeinig (BFI) sy'n ffurfio'r Rhwydwaith Cynulleidfa Ffilm (FAN). Rheolir Canolfan Ffilm Cymru gan Chapter. Rydyn ni hefyd yn arwain Gwnaethpwyd yng Nghymru, prosiect sy'n dathlu ffilmiau sydd â chysylltiadau Cymreig, a gefnogir gan Gymru Greadigol. Rydym hefyd yn falch o fod wedi arwain ar strategaeth Sinema Gynhwysol DU ar ran BFI FAN 2017-23.

Ganolfan Ffilm Cymru: Gwefan, X (Twitter gant), Facebook, Instagram

**Ynglŷn â Gwnaethpwyd yng Nghymru**
Mae prosiect Gwnaethpwyd yng Nghymru (GYNg) Canolfan Ffilm Cymru yn dathlu ffilmiau sydd â chysylltiadau Cymreig. Mae'n cynnig gweithgareddau ar hyd y flwyddyn mewn partneriaeth ag arddangoswyr yng Nghymru, gan gynnwys catalog ffilmiau, sy'n gartref i dros 1000 o ffilmiau hir a byr a phodlediad Gwnaethpwyd yng Nghymru. Gall cynulleidfaoedd dderbyn y newyddion diweddaraf ynglŷn â ffilmiau Cymreig newydd a'r cyfweliadau diweddaraf drwy ddilyn Gwnaethpwyd Yng Nghymru ar **Instagram**, **Facebook**, **TikTok**, the **podlediad Gwnaethpwyd yng Nghymru, YouTube** **a** **Letterboxd.**

Mae GYNg yn bosib drwy gyllid Cymru Greadigol a Rhwydwaith Cynulleidfa Ffilm (RhCFf) y BFI. Mae RhCFf y BFI yn cynnig cefnogaeth i arddangoswyr ledled y DU, er mwyn hybu rhaglennu diwylliannol ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd amrywiol. Yng Nghymru, arweinir y gweithgarwch gan Ganolfan Ffilm Cymru, dan reolaeth Chapter.

Gwnaethpwyd yng Nghymru: Instagram, TikTok, Facebook, Made in Wales podcast, YouTube, Letterboxd.

**Ynglŷn â Chapter**
Mae Chapter yn lleoliad ar gyfer diwylliant a chelfyddydau cyfoes, sydd â'i wreiddiau yng Nghaerdydd, Cymru. Cafodd ei sefydlu gan artistiaid yn 1971 i ddathlu arbrofi a meddwl radical, ac rydyn ni wedi bod yn sbardun ar gyfer creadigrwydd a meddwl beirniadol byth ers hynny.

Rydyn ni'n ganolfan ar gyfer cynhyrchu a chyflwyno gwaith arloesol, difyr, o safon fyd-eang. Mae ein horiel yn comisiynu ac yn cynhyrchu arddangosfeydd o'r gwaith gorau ym maes celf genedlaethol a rhyngwladol. Mae ein gofodau theatr yn llwyfan ar gyfer dramâu, dawns, cerddoriaeth, celf fyw a llawer mwy sy'n arbrofol ac yn ysgogi'r meddwl. Mae ein sinemâu yn cynnig ffilmiau annibynnol a heriol, ochr yn ochr ag ystod o wyliau a digwyddiadau unigryw, ac rydyn ni'n cyflwyno mwy o ffilmiau, i fwy o bobl, mewn mwy o lefydd, drwy Ganolfan Ffilm Cymru.

Ochr yn ochr â'n rhaglen graidd, rydyn ni hefyd yn gartref i fwy na 50 o artistiaid a chwmnïau creadigol sydd wedi'u lleoli yn ein stiwdios. O animeiddwyr a chwmnïau cynhyrchu ffilm sydd wedi ennill gwobrau, i artistiaid, dylunwyr a ffotograffwyr, ac i stiwdios fframio celf, printio, a recordio, mae ein cymuned greadigol wrth wraidd popeth rydyn ni'n ei wneud.

Mae ein rhaglen a'n cymuned yn dod at ei gilydd yn ein caffi bar clodwiw sydd â lle i tua 120 o bobl eistedd, ac mae'n lle gwych i gwrdd â ffrindiau, i ganfod cornel dawel i wneud ychydig o waith oddi cartref, neu i gael tamaid o fwyd a diod ffres a lleol.

Y tu allan, rydyn ni'n falch o weithio gyda Garddwyr Cymunedol Treganna sy'n meithrin ein mannau gwyrdd ac yn rhannu eu gwybodaeth drwy waith allgymorth gydag ysgolion a'n cymunedau lleol. Maen nhw'n gofalu am ein gwenyn hyfryd hefyd!

Mae llawer o bobl yn ymweld â ni wrth fynd i ystod o ddosbarthiadau, gweithdai a digwyddiadau cyffrous sy'n cael eu cynnal gan wahanol fusnesau lleol bob dydd. Rhowch gynnig ar greu printiau, Lindy Hop, Tae Kwando, bale, tap, cerddoriaeth i fabanod, y gerddorfa ieuenctid, a llawer mwy, yn awyrgylch cynhwysol ein safle ymlaciol. Rydyn ni hefyd yn cynnig ystod o ofodau unigryw a rhesymol i'w llogi os ydych chi'n chwilio am safle ffilmio anarferol, lleoliad hygyrch ar gyfer cynhadledd neu gyfarfod, neu rywle i ddathlu achlysur arbennig.

Mae croeso i bawb!

Gwefan, Facebook, X (Twitter gant), Instagram